# Yr ASB yn rhybuddio pobl ag alergeddau ynghylch rhai cynhyrchion siocled ‘dull Dubai’ a fewnforir

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn codi ymwybyddiaeth ac yn ymgysylltu â busnesau, mewnforwyr a defnyddwyr mewn perthynas â phryderon ynghylch rhai cynhyrchion siocled ‘dull Dubai’ a fewnforir sy’n cael ei werthu yn y DU, a allai beri risg i unigolion ag alergeddau bwyd.

O ran y cynhyrchion siocled ‘dull Dubai’ a fewnforir, mae’n bosib nad oedd yn fwriad i rai ohonynt gael eu gwerthu yn y DU, ac efallai na fydd ganddynt restr gynhwysion lawn na labeli sy’n nodi’r alergenau. Yn ôl y gyfraith, rhaid i labeli restru’r holl gynhwysion a nodi’n glir unrhyw un o’r 14 alergen rheoleiddiedig. Efallai na fydd y cynhyrchion hynny na ddylent fod wedi cael eu mewnforio i’w gwerthu yn bodloni safonau diogelwch bwyd uchel y DU.

Er bod y rhan fwyaf o siocled ‘dull Dubai’ sydd ar gael mewn siopau yn y DU yn ddiogel, wrth weithio gydag awdurdodau lleol, rydym wedi nodi nifer o gynhyrchion sy’n peri risg iechyd i ddefnyddwyr ag alergeddau. Gall rhai o’r cynhyrchion hyn hefyd gynnwys ychwanegion a lliwiau nad ydynt yn cael eu caniatáu ar farchnad y DU. Ym mhob achos, mae’r ASB yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd i ddiogelu defnyddwyr.

Dylai pawb allu ymddiried bod y bwyd maen nhw’n ei brynu yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Dyna pam mae’r ASB wedi cymryd camau ar y cynhyrchion dan sylw ac wedi rhannu pryderon â busnesau a grwpiau yn y diwydiant fel y gellir tynnu’r cynhyrchion oddi ar silffoedd a marchnadoedd ar-lein.

Mae yna bethau y gallwch chi chwilio amdanynt i wirio a yw cynnyrch wedi’i fwriadu i’w werthu yma. Yn ôl y gyfraith, dylai cynhyrchion a wneir i safonau’r DU fod â labeli yn Saesneg sy’n cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw’r bwyd (er enghraifft, siocled llaeth gyda phast cnau pistasio)
- rhestr gynhwysion, gyda’r alergenau wedi’u pwysleisio
- pwysau’r bwyd mewn gramau
- dyddiad ‘ar ei orau cyn’ neu ‘defnyddio erbyn’
- enw a chyfeiriad y busnes yn y DU neu’r UE sy’n gyfrifol am yr wybodaeth am y cynnyrch. Os nad yw’r bwyd yn dod o’r DU neu’r UE, rhaid cynnwys enw a chyfeiriad y mewnforiwr.

Mae’r ASB bellach yn arolygu ac yn samplu’r cynhyrchion hyn i ddarganfod maint y mater dan sylw. Wrth i’r gwaith hwn fynd rhagddo, rydym yn gweithio gydag elusennau alergedd i helpu i godi ymwybyddiaeth o’r risg i ddefnyddwyr.

> “Mae’r mwyafrif helaeth o’r bwyd yn y DU yn ddiogel ond, nid yw rhai cynhyrchion siocled ‘dull Dubai’ a fewnforir yn bodloni ein safonau, a gallent beri risg diogelwch bwyd – yn enwedig i ddefnyddwyr ag alergeddau. Os ydych chi’n bwriadu prynu

siocled ‘dull Dubai’, rydym yn cynghori cadw at fanwerthwyr dibynadwy, fel y rhai y byddech chi’n eu defnyddio ar gyfer eich siopa wythnosol. Mae hyn oherwydd bod y cynhyrchion yn fwy tebygol o gael eu gwneud ar gyfer defnyddwyr y DU, ac felly’n ddiogel i’w bwyta.

Gan ei bod hi’n anodd i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng cynhyrchion sy’n cael eu gwneud ar gyfer y DU a’r rhai nad ydynt yn cael eu gwneud ar gyfer y DU, os oes gennych alergedd neu anoddefiad bwyd, rydym yn eich cynghori i beidio â phrynu’r cynnyrch oni bai eich bod chi’n si?r ei fod wedi’i fwriadu i’w werthu yma. Mae cyfraith y DU yn ei gwneud yn ofynnol i labeli bwyd bwysleisio unrhyw un o’r 14 alergen rheoleiddiedig sydd yn y cynnyrch, ond efallai na fydd rhai cynhyrchion a fewnforir yn gwneud hyn. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ar food.gov.uk/cy.

Os oes gennych bryderon am siocled rydych chi’n ei weld ar werth, peidiwch â’i brynu. Yn hytrach, rhowch wybod amdano i’ch awdurdod lleol. Rydym yn gweithio’n agos gydag awdurdodau lleol i wneud yn si?r bod unrhyw gynhyrchion anniogel yn cael eu tynnu oddi ar y farchnad cyn gynted â phosib.

**Yr Athro Robin May, Prif Gynghorydd Gwyddonol yr ASB**

Ni ddylai neb fwyta cynhyrchion os ydynt yn ansicr amdanynt ar ôl eu prynu, yn enwedig os oes ganddynt alergeddau neu anoddefiadau bwyd.

Am fwy o wybodaeth am alergeddau bwyd a sut i fod yn ddiogel, ewch i food.gov.uk/cy.